## Bwrdd S4C

Cyfarfod 475
10:00, 23 Ionawr 2025
Yr Egin, Caerfyrddin

## COFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Guto Bebb [GB], Cadeirydd y Bwrdd
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Adele Gritten [AdG], Aelod Anweithredol (rhithiol)
- Chris Jones [CJ], Aelod Anweithredol
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Nadine Beaton [NaB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata (rhithiol)
- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd Bwrdd S4C
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid
- Dewi Evans [DE], Rheolwr Prosiectau
- Sioned Harries [SH], TAC – ar gyfer eitem 9
- Natalie Jones [NJ], Rheolwr Addysg, Amrywiaeth a'r Gymraeg
- Llŷr Morys [LlM], TAC
- Sara Peacock [SP], Pennaeth Tim Strategol
- Sioned Haf Roberts [SHR], TAC
- Llinos Wynne [LlW], Prif Swyddog Cynnwys (dros dro) – (rhithiol)

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd**<br><br><u>Trafodaeth gyda Dr Ioan</u><br><br>Yn dilyn y sesiwn gyda Dr Ioan Rees cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, bu GP a Dr Ioan yn trafod ymhellach. Awgrymwyd bod y Bwrdd yn defnyddio’r eitem ‘Unrhyw Fater Arall a Gwerthuso’r Cyfarfod’ i werthuso cyfarfodydd y Bwrdd yn erbyn y Cod Diwylliant a holi aelod gwahanol o’r Bwrdd i arwain gwerthusiad cryno ar ddiwedd bob cyfarfod. Cytunodd GE i wneud hyn yn y cyfarfod yma.<br><br><u>Aelodaeth AdG a CJ o’r Bwrdd</u><br><br>Roedd y DCMS wedi cadarnhau estyniadau byr i dymhorau AdG a CJ ar y Bwrdd tan ddiwedd Ebrill 2025. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | <u>Argymhellion adroddiad Darwin Gray</u><br><br>Un o argymhellion adroddiad Darwin Gray oedd bod y Bwrdd yn ystyried cyflwyno system mentor a / neu bydi – er mwyn helpu anwytho aelodau newydd o'r Bwrdd.<br><br>Wrth drafod hyn, nodwyd nad oedd llawer o aelodau anweithredol ar gael i fod yn bydiaid – serch hynny, o ystyried y model bwrdd unedol awgrymwyd y byddai'n briodol paru aelodau newydd gydag aelodau gweithredol y Bwrdd hefyd.<br><br>Daeth hefyd i'r amlwg yn ystod y drafodaeth nad oedd aelodau anweithredol y Bwrdd (ag eithrio SuD) wedi derbyn anwythiad ffurfiol. Nodwyd hefyd y byddai angen trefnu proses anwytho ar nifer o aelodau newydd o'r Bwrdd, a Bwrdd y Grŵp Masnachol.<br><br>**Penderfyniad: I gyflwyno system bydi ar gyfer anwytho aelodau newydd o'r Bwrdd, yn unol ag argymhelliad Darwin Gray.**<br><br>**Penderfyniad: I adolygu'r broses sydd gan S4C ar gyfer anwytho aelodau newydd o'r Bwrdd – yn unol â'r cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion Darwin Gray.**<br><br>**Penderfyniad: I gynnig sesiynau anwytho o'r newydd, a hyfforddiant cyffredinol, i holl aelodau presennol y Bwrdd, ar yr un pryd â'r hyn a ddarperir ar gyfer yr aelodau newydd.** | |
| 3. | **Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain**<br><br>Cyflwynodd GE yr adroddiad, gydag aelodau eraill yr Uwch Dîm Arwain yn cyflwyno'r elfennau oedd roedd ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar bynciau yn cynnwys: Cynnwys (uchafbwyntiau diweddar, y dashfwrdd misol diweddaraf, ac adborth y gynulleidfa); Cyfathrebu a Marchnata; Pobl a Diwylliant; Cyllid; Risg; ac S4C Masnachol.<br><br>Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Bwrdd. Wrth wneud hynny, canolbwyntiwyd ar rai elfennau penodol.<br><br>[ymunodd LlW â'r cyfarfod]<br><br><u>Cynnwys</u><br><br>Wrth i LlW cyflwyno penawdau cynnwys nododd bod llawer o negeseuon positif ynglŷn â chynnwys wedi eu derbyn dros y Nadolig. Cyfeiriwyd hefyd at 'Fflam y Ddraig' oedd yn yr 'idents', a hefyd yr ymgyrch marchnata a chyfathrebu i'r cynnwys dros y cyfnod.<br><br>Nid oedd ffigyrau llinol dros nos Amour a Mynydd yn uchel iawn, ond roedd llawer yn gwylio ar alw ac yn creu tipyn o sŵn o'i amgylch. Roedd Apres Amour a Mynydd hefyd wedi gweithio'n dda. Nodwyd hefyd bod Amour a Mynydd yn enghraifft dda o gynnwys sy'n 'clippable' iawn, felly yn medru ei roi ar gyfryngau cymdeithasol sy'n hynny'n helpu creu sŵn, ac yn cynyddu'r ymwneud â chynnwys Cymraeg.<br><br>[Gadawodd LlW y cyfarfod]<br><br><u>Cyfathrebu a Marchnata</u><br><br>Holodd DLP o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a fyddai modd i aelodau'r Bwrdd helpu drwy fynychu digwyddiadau corfforaethol ar ran S4C? Pe byddai hynny'n ddymunol, nododd y byddai'n ddefnyddiol cael arweiniad ar y 'llinellau i'w cymryd'. Atebodd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | MEA bod MW yn diweddaru'r cynllun cyfathrebu corfforaethol, a byddai hyn i gyd yn rhan o'r pecyn sy'n cael ei ddatblygu.<br><br>**Penderfyniad: I rannu copi o'r pecyn sy'n cael ei ddatblygu i gynnig arweiniad ar negeseuon wrth ymwneud â rhanddeiliaid.**<br><br><u>Pobl a Diwylliant</u><br><br>Ar ôl i NB gyflwyno ei sleidiau, holodd DLP a oedd bwriad sefydlu adnodd canolog er mwyn crynhoi deunydd yn ymwneud â phobl a diwylliant, a'i wneud yn haws i staff gael hyd i wybodaeth. Atebodd NB ei bod mewn trafodaethau gyda MEA i greu ardal benodol ar Sbec i ar gyfer hyn, gan alluogi staff i atgoffa'u hunain am wahanol brosesau, megis trefniadau sefydlu a'r Cod Diwylliant. Nodwyd bod Sbec wedi cael ei ail-lansio ddiwedd 2024.<br><br>Ychwanegodd GE bod angen rhoi mwy o strwythur i'r gwerthusiadau blynyddol, gan sicrhau eu bod yn asesu nid yn unig a yw unigolion yn cyflawni eu hamcanion, ond hefyd sut maent yn gwneud hynny mewn perthynas â'r Cod Diwylliant. Pwysleisiodd hefyd yr angen i ddatblygu staff yn weithredol drwy annog cyfleoedd i ddysgu oddi wrth arferion sefydliadau eraill. Serch hynny, nododd mai'r her yw sicrhau bod staff yn sylweddoli eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n barhaus drwy eu gwaith bob dydd, ac nad oes angen mynd ar gwrs neu fynychu hyfforddiant ffurfiol bob tro.<br><br><u>Cyllid</u><br><br>Nododd ShW bod S4C bellach yn gyfrifol am ariannu'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol ar gyfer cyflogwyr. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y sector, felly mae S4C yn ymgysylltu â chwmnïau ar wahân i ddeall yr heriau sy'n eu hwynebu.<br><br><u>Risg</u><br><br>Holodd DLP a fyddai'n syniad cynnwys crynodeb o'r risgiau ar ffurf system goleuadau traffig? Atebodd GE bod bwriad i adolygu'r gofrestr risg mewn manylder, i gyd-fynd gydag adolygu'r strategaeth.<br><br>Roedd gan DLP cwestiwn ynglŷn â chynlluniau S4C i adolygu'r defnydd o AI (artificial intelligence). Nododd GE nad oedd canllaw gan S4C eto ond bod y BBC wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar. Roedd yr Uwch Dîm Arwain newydd drafod hyn ac yn bwriadu sefydlu tîm i ystyried hyn fel rhan o arloesedd yn gyffredinol yn S4C.<br><br>[Gadawodd LlP a DE y cyfarfod] | |
| 4. | **Cyfansoddiad yr Uwch Dîm Arwain**<br><br>Adeg ei gyfweliad ar gyfer swydd y Prif Weithredwr, nododd GE yn glir ei fwriad i adolygu enw a chyfansoddiad y Tîm Rheoli. Ers iddo ddechrau yn y swydd yn ffurfiol ar 01 Ionawr 2025, roedd bellach wedi cael cyfle i ymgynghori gyda chydweithwyr ac felly amlinellodd ei argymhellion i'r Bwrdd.<br><br>Argymhellwyd newid enw'r corff o'r "Tîm Rheoli" i'r "Uwch Dîm Arwain," sy'n cyd-fynd yn agosach â'r term cyfarwydd "Senior Leadership Team" a ddefnyddir mewn sefydliadau eraill.<br><br>Nododd GE hefyd bod GP wedi llunio cylch gorchwyl ar gyfer yr Uwch Dim Arwain oherwydd nid oedd cylch gorchwyl yn bodoli'n flaenorol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Roedd GE yn cynnig ehangu aelodaeth yr Uwch Dîm Arwain drwy ychwanegu'r unigolion canlynol fel aelodau llawn: Iestyn Morris, Pennaeth Cyfreithiol; Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Bwrdd; a Mali Williams, Arweinydd Materion Cyhoeddus.<br><br>Er yn croesawu'r argymhelliad i ychwanegu'r tri fel aelodau llawn o'r Uwch Dîm Arwain, holwyd a fyddai gor-gyffwrdd rhwng cyfrifoldebau'r Pennaeth Materion Cyhoeddus, a rhai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata? Nodwyd serch hynny bod MW eisoes yn gyfrifol am ymwneud S4C a'i rhanddeiliaid blaenllaw, ac yn cydweithio'n agos gyda MAE ac EM.<br><br>O ran ychwanegu Ysgrifennydd y Bwrdd fel aelod llawn o'r Uwch Dîm Arwain, nodwyd ei fod eisoes yn mynychu holl gyfarfodydd y Tîm Rheoli fel arsylwr. Roedd gan rai aelodau bryderon y gallai aelodaeth lawn roi'r Ysgrifennydd mewn man lletchwith pe byddai gwrthdaro rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr; bod angen cyfathrebu clir i osgoi camddealltwriaeth; a diogelu annibyniaeth yr Ysgrifennydd os oes risg ei fod yn atebol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.<br><br>Nododd CJ fod swydd ddisgrifiad Ysgrifennydd y Bwrdd eisoes yn egluro ei gyfrifoldebau i'r Bwrdd, felly ni fyddai ei aelodaeth o'r Uwch Dîm Arwain yn groes i hynny. Teimlai CJ hefyd bod hyn yn dystiolaeth o symudiad S4C o'r model Awdurdod i Fwrdd llawn, gan sicrhau bod y Bwrdd yn rhan annatod o strwythur y sefydliad yn hytrach na rhywbeth ar wahân.<br><br>Gofynnwyd i GP, GE a NB adolygu'r pryderon a llunio fframwaith clir ar rôl yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r Uwch Dîm Arwain, i'w rannu gyda'r aelodau trwy e-bost.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo newid enw'r Tîm Rheoli i'r Uwch Dîm Arwain.**<br><br>**Penderfyniad: I ychwanegu IM fel aelod o'r UDA.**<br><br>**Penderfyniad: I ychwanegu MW fel aelod o'r UDA, a chymeradwyo bwriad i ddiwygio ei swydd ddisgrifiad, teitl, a thelerau ei chyflogaeth.**<br><br>**Penderfyniad: I ychwanegu GP fel aelod o'r UDA, yn amodol ar gofnodi i'r Bwrdd ystyried goblygiadau o ran atebolrwydd yr Ysgrifennydd i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd ac unrhyw fframwaith sydd angen ei roi mewn lle er mwyn diogelu annibyniaeth yr Ysgrifennydd pan fod angen.** | |
| 5. | **Cynlluniau i adolygu'r strategaeth gorfforaethol**<br><br>Gyda'r Strategaeth 2022–27 bellach wedi ei mabwysiadu ers tair blynedd, cyflwynodd GE gynnig i adolygu'r cynnydd hyd yma a datblygu strategaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.<br><br>Mewn ymateb i'r cynllun gweithredu yn sgil adroddiad Capital Law, roedd yr Uwch Dîm Arwain eisoes wedi awgrymu lleihau'r pileri strategol o wyth i bedwar. Fodd bynnag, ers cychwyn fel Prif Weithredwr, roedd GE wedi ystyried y mater ymhellach ac yn cynnig adolygu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd.<br><br>Wrth drafod papur GE, cynigiwyd yr adborth canlynol gan aelodau'r Bwrdd:<br>• Bod hi'n hanfodol bod y Bwrdd gyda'r aelodau newydd gael mewnbwn ac yn cymeradwyo'r strategaeth ddiwygiedig.<br>• Pwysigrwydd gosod dangosyddion perfformiad (KPIs) ac asesu cynnydd yn rheolaidd.<br>• Dylid paratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y strategaeth.<br>• Gallai aelodau anweithredol Bwrdd y Grŵp Masnachol gyfrannu at y broses adolygu, gan gynnig persbectif gwahanol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Pwysigrwydd cyfathrebu'r newidiadau i'r DCMS.<br><br>Diolchodd GE am yr adborth defnyddiol, gan nodi ei fod yn disgwyl y byddai mabwysiadu strategaeth newydd yna'n arwain at ffrydiau gwaith pellach, yn cynnwys:<br>• Adolygu'r is-strategaethau presennol.<br>• Ystyried sut mae S4C yn mesur ac yn adrodd ar gyflawni'r strategaeth, i'r Bwrdd a rhanddeiliaid eraill.<br>• Adolygu'r gofrestr risg er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod y prif risgiau sydd bellach yn ein hwynebu.<br>• Datblygu cynllun gwaith gweithredol i'r Uwch Dîm Arwain, fydd yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd.<br><br>Holodd SuD pa rôl fyddai gan y Pwyllgor Archwilio a Risg wrth asesu effeithiolrwydd y prosesau sy'n deillio o'r strategaeth newydd. Atebodd ShW y byddai'n fater i'w ystyried ar ôl mabwysiadu'r strategaeth ddiwygiedig a'i rhoi ar waith.<br><br>Pwysleisiwyd y byddai'r strategaeth newydd yn adeiladu ar y strategaeth bresennol, yn hytrach na'i disodli'n llwyr.<br><br>**Penderfyniad: Yr Uwch Dim Arwain i gynnal adolygiad o'r strategaeth, a chyflwyno rhagflas o'r prif amcanion i gyfarfod nesa'r Bwrdd ym mis Mawrth.** | |
| 6. | **Cymeradwyo cyllideb 2025-26 (a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny)**<br><br>Cyflwynodd ShW bapur yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2025–26, gan amlinellu hefyd oblygiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, holodd GB am y rolau gwag oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb, a'r cynlluniau i'w llenwi. Eglurodd ShW fod rhai swyddi ar hyn o bryd yn cael eu llenwi dros dro gan weithwyr llawrydd, ac y bydd angen ystyried rolau yr oedd S4C wedi bwriadu eu creu yn y gorffennol ond heb ddatblygu disgrifiadau swydd ar eu cyfer. Bydd angen penderfynu a oes angen y rolau hynny o hyd.<br><br>Croesawodd CJ y bwriad i gynyddu'r buddsoddiad yn natblygiad staff. Fodd bynnag, pwysleisiodd pwysigrwydd parhau'n ofalus i sicrhau nad yw'r gwariant ar orbenion yn cynyddu'n sylweddol uwchlaw'r 3% presennol o'r gyllideb.<br><br>O ran trefniadau cyfrifo, amlinellodd ShW fod S4C bellach yn gorff Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), fel y BBC. Atgoffodd yr aelodau bod y cyfrifon rheoli'n cofnodi gwariant y pwynt talu, tra bod y cyfrifon statudol yn adlewyrchu gwariant ar sail pan gaiff cynnwys ei ddarlledu neu pan ddefnyddir yr arian.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cyllideb 2025-26 (a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny).** | |
| 7. | **Cymeradwyo buddsoddiad masnachol**<br><br>Sefydlodd S4C Rhyngwladol Cyf y Gronfa Cynnwys Fasnachol yn 2023, gyda'r Bwrdd eisoes wedi cytuno y gellir gwneud buddsoddiadau hyd at £500k heb gymeradwyaeth ychwanegol.<br><br>Derbyniwyd cais am fenthyciad o £600k o'r Gronfa i lif-ariannu credyd treth ar gyfer ffilm y mae S4C yn bwriadu ei chomisiynu.<br><br>Trafodwyd y cais gan Fwrdd y Grŵp Masnachol y diwrnod cynt, ac fe amlinellodd EM eu hargymhellion, oedd yn cynnwys bod Bwrdd S4C yn cymeradwyo'r buddsoddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: I roi'r hawl i S4C Rhyngwladol, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i roi benthyciad i lif ariannu credyd treth ar gyfer y ffilm.** | |
| 8. | [ymunodd SP a NJ â'r cyfarfod]<br><br>**Y Strategaeth Addysg**<br><br>Cyflwynodd NJ Strategaeth Addysg arfaethedig ar gyfer S4C, oedd wedi ei pharatoi i gyd-fynd gyda'r strategaeth gorfforaethol bresennol. Wrth gyflwyno, esboniodd NJ bod tipyn o gynnwys gyda S4C ar HWB, gyda "Y Weithred" ac "Y Gwyll" yn cael eu gwylio dro ar ôl tro. Yr her serch hynny yw annog athrawon i ehangu eu gorwelion ac i ddefnyddio cynnwys arall S4C.<br><br>Holodd SuD a oedd data ar ba fath o athrawon sy'n defnyddio adnoddau S4C? Atebodd NJ fod holiadur wedi'i ddosbarthu i gasglu adborth gan ysgolion, ond mai ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd wedi ymateb yn bennaf. Oherwydd prysurdeb athrawon, mae'n anodd sicrhau adborth cyson. Nodwyd bod gan SP gyfarfod gydag Eilir Jones i drafod pa ddata ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i'w gasglu ganddynt.<br><br>Holodd SuD sut y mae S4C yn cyrraedd cynulleidfaoedd mewn ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg. Atebodd NJ fod y strategaeth yn cynnwys dull targedu ysgolion gyda chynnwys perthnasol, e.e., dangos Ar y Ffin mewn ysgol yng nghyffiniau Casnewydd. Ategodd SP fod ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn elwa ar adnoddau S4C, megis pytiau byr i helpu oedolion i ddysgu Cymraeg.<br><br>Mewn ymateb i awgrymiadau y gallai S4C gydweithio'n agosach gyda phartneriaid fel TAC a Gŵyl y Gelli i godi ymwybyddiaeth o'r hyn a gynigir gennym a'r cyfleoedd gyrfa yn y sector, nododd NJ ei bod yn disgwyl i'r strategaeth newydd ddarparu'r strwythur angenrheidiol i wireddu hyn.<br><br>Fodd bynnag, pwysleisiodd SP yr angen i fod yn strategol wrth flaenoriaethu gweithgareddau, gan osgoi sefyllfa lle byddai NJ yn gorfod ymweld â phob ysgol yn unigol.<br><br>**Penderfyniad : I gymeradwyo'r Strategaeth Addysg.**<br><br>[Gadawodd SP a NJ y cyfarfod] | |
| 9. | [ymunodd LlM, SHR a SH â'r cyfarfod]<br><br>**Cyfarfod y Bwrdd gyda chynrychiolwyr TAC**<br><br>Croesawodd GB LlM, SHR a SH i'r cyfarfod, gan longyfarch LlM yn benodol ar ei ethol fel Cadeirydd TAC.<br><br>Y prif bryderon a godwyd gyda LlM yn ystod ei gyfarfodydd gydag aelodau TAC oedd 'brass plating', a chredyd treth ar gyfer cynyrchiadau drud. Trafodwyd yr agweddau hynny.<br><br>Nodwyd bod aelodau TAC yn gwerthfawrogi'r sefydlogrwydd mae prosesau comisiynu S4C yn cynnig. Mewn ymateb, gwnaeth GE gydnabod rôl allweddol TAC fel pont rhwng S4C a'r cwmnïoedd cynhyrchu, gan alluogi rhannu gwybodaeth a chodi pryderon os oes angen.<br><br>[Gadawodd AdG y cyfarfod]<br><br>Cyfeiriodd CJ at Strategaeth Addysg newydd S4C, a'r cyfle i gydweithio gyda TAC ar hyrwyddo cyflogaeth yn y sector. Cytunodd LlM y gallai TAC a'i aelodau gyfrannu trwy ymweld ag ysgolion i drafod gyrfaoedd yn y sector. | |

| | | |
|---|---|---|
| | [Gadawodd LlM, SHR a SH y cyfarfod] | |
| 10. | **Adroddiadau a gymeradwywyd / nodwyd heb yr angen am drafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r diweddariad i'w gyhoeddi ar y wefan.**<br><br><u>Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r dashfwrdd, i'w gyflwyno i'r DCMS yn y cyfarfod chwarterol ar 18/02/2025.**<br><br><u>Adroddiad Ariannol Chwarter 3, 2024–25</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br><u>Penodi aelodau annibynnol i Fwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>**Penderfyniad: I benodi Luci Sanan, Oliver Lang a Richard Johnston i Fwrdd y Grŵp Masnachol.**<br><br>**Penderfyniad: I gadarnhau penodiad Geraint Evans fel aelod o Fwrdd y Grŵp Masnachol.**<br><br>**Penderfyniad: I benodi Geraint Evans fel cadeirydd Bwrdd y Grŵp Masnachol.**<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 474, a gynhaliwyd ar 12/12/2024.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u><br><br>Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf, sef:<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf. | |
| 11. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod**<br><br>Gwnaeth GE arwain gwerthusiad cryno ar sut oedd y Bwrdd wedi cynnal gwerthoedd y Cod Diwylliant yn ystod y cyfarfod. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn ystod y gwerthusiad, nodwyd y canlynol:<br>• Yr angen i gadw at yr amseru ar yr agenda;<br>• Cymryd bod y papurau wedi'i darllen cyn y cyfarfod – gyda'r Bwrdd yn cynyddu o ran maint yn y dyfodol agos, bydd angen bod yn fwy disgybledig; ac<br>• Ystyried p'un ai i wahodd yr Uwch Dîm Arwain i gyd i fynychu trwy gydol y cyfarfod i'r dyfodol – er bod croeso iddynt fynychu, nid oes rheidrwydd iddynt fod yno trwy gydol os oes blaenoriaethau eraill ganddynt. | |